# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0726(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008

**At Nick Ramsay:**

Yn ystod Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar 19 Chwefror, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch mewn cysylltiad â physgodfa rhwyd gafl Black Rock.

Mae stociau eog llawer o'n hafonydd yn methu â chyrraedd targedi cadwraeth. Mae hefyd pryder mawr ynghylch y niferoedd isel o eogiaid sy'n dychwelyd am sawl gaeaf. Eogiaid yw'r rhain sydd wedi treulio dwy flynedd neu ragor yn y môr, cyn dychwelyd i'n hafonydd i silio, ac i ffurfio cydran bwysig o'r afonydd sy'n llifo i aber Hafren. Yn rhannol mae dirywiad y lefelau stoc y tu allan i'n rheolaeth, a gellir ei briodoli i farwolaeth yn yr amgylchfyd morol. Mae'n hollbwysig felly bod stociau sy'n dychwelyd yn dod i'n hafonydd i silio lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae ein rhwydi eog a physgodfeydd gwialen yn cael eu rheoli gan nifer o is-ddeddfau sydd nid yn unig yn pennu amodau'r amseroedd a'r dulliau a ddefnyddir ond hefyd yn ceisio cadw stoc. Cefnogir y gweithgaredd hwn gan y gwaith a wneir i leddfu'r rhwystrau i ymfudiad, i wella amgylchedd afonol ac adfer gwelyau silio.

Mae'r is-ddeddf bresennol sy'n diogelu'r eogiaid sy'n dychwelyd am sawl gaeaf yn gynnar yn y tymor yn dod i ben eleni. Roedd pysgotwyr rhwydi Black Rock yn pryderu y byddai is-ddeddf newydd yn gosod cyfyngiadau pellach arnynt. Lleddfwyd yr ofn hwn pan gadarnhawyd yn ystod eu cyfarfod â'r Gweinidog Materion Gwledig y byddai'r is-ddeddf newydd ar sail debyg i'r hen un. Yn ystod y cyfarfod fe'u hysbyswyd hefyd bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn bwriadu adolygu'r holl Is-ddeddfau eraill yng Nghymru, ac fel rhan o'r broses hon yn nodi mesurau eraill a all fod yn angenrheidiol eu cyflwyno i ddiogelu stociau. Roedd yn iawn ac yn briodol fod hyn wedi dod i sylw'r pysgotwyr rhwydi. Ar hyn o bryd mae swyddogion wrthi'n trafod gyda'r pysgotwyr rhwydi ac Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn nodi sut y gellir diogelu stoc heb amharu llawer ar weithgareddau'r bysgodfa.

Er fy mod yn cydnabod gwerth treftadaeth nifer o'n pysgodfeydd rhwydi, cwryglau afonydd Taf, Teifi a Thywi, rhwydi cwmpas afon Cleddau a rhwydi gafl afon Hafren, rhaid ystyried hyn yn erbyn cynaliadwyedd stoc a phryderon amgylcheddol eraill. Er nad ydym hyd yn hyn wedi cynnal asesiad o effaith unrhyw gynlluniau cynhyrchu pŵer yn aber Hafren ar bysgodfeydd, mae'n debygol na fydd yr effaith ar y pysgodfeydd yn fuddiol, yn arbennig mewn perthynas â rhywogaethau mudol o deulu'r eog.

## Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ(3)0735(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008

**At Janet Ryder:**

Cytunais yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Chwefror i weld a oedd ymateb llawn wedi'i anfon i'ch llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr am ddyfodol gwasanaeth niwrolegol i gleifion yn y Gogledd.

Anfonodd Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ymateb i'r llythyr hwn ar 31 Ionawr. Mae copi o'r ymateb isod.

*Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr am ddyfodol gwasanaeth niwrolegol i gleifion yn y Gogledd. Er na ddywedoch yn eich llythyr, rwy'n cymryd eich bod yn cyfeirio at ddarparu Imiwnoglobiwlin Mewnwythiennol (IVIG) i gleifion â chyflyrau niwrolegol. Rwy'n gwybod i chi siarad â'r Prif Weinidog am y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Ionawr a'i fod wedi ysgrifennu atoch. Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn ateb eich cwestiwn yn briodol.*

*Mae angen goruchwyliaeth glinigol i weinyddu IVIG a gwnaethpwyd y penderfyniad i ddarparu'r therapi hwn yng Nghanolfan Walton ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth GIG a chomisiynwyr y gwasanaeth. Y ffactor allweddol yn y penderfyniad hwn oedd sicrhau'r system orau ar gyfer llywodraethu clinigol a bod Comisiwn Iechyd Cymru, fel un o asiantaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn comisiynu gwasanaethau trydyddol o ansawdd uchel er budd pob claf sy'n preswylio yng Nghymru.*

*Mae Canolfan Walton wedi sicrhau fy swyddogion na fydd triniaeth cleifion yn cael ei esgeuluso mewn unrhyw ffordd, ond mae'r Ganolfan yn cydnabod y gallai teithio ymhellach achosi anghyfleustra i gleifion. Fodd bynnag, mae'n bwysig rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch cleifion a'r system llywodraethu clinigol. Nid oes gan glinigwyr Canolfan Walton sy'n teithio i ysbytai lloeren yng Nghymru yr hawl i dderbyn cleifion ac ni allant oruchwylio triniaeth i gleifion pan nad ydynt ar y safle mewn ysbytai yng Nghymru. O safbwynt llywodraethu, mae'n bwysig bod y clinigydd yn cadw cyfrifoldeb clinigol dros gyfnod gofal y claf.*

*Os caiff claf ei drin fel claf mewnol mewn ysbyty yng Nghymru, rhaid iddo fod dan ofal clinigydd Cymreig drwy gydol y cyfnod yn yr ysbyty. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r clinigydd Cymreig ddarparu goruchwyliaeth glinigol lawn, gan gynnwys IVIG.*

*Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach am y mater hwn, rwy'n awgrymu eich bod yn eu trafod â Dr Nick Fletcher, Cyfarwyddwr Clinigol Niwroleg a Chyflyrau Hirdymor yng Nghanolfan Walton. Gallwch ysgrifennu ato yn Lower Lane, Fazakerley, Lerpwl L9 7LJ.*

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0703(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Mawrth 2008**

**At Trish Law a Mohammad Asghar:**

Yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 19 Chwefror 2008, addewais ichi y byddwn yn ysgrifennu atoch am estyn gwasanaeth rheilffordd Glyn Ebwy i Gasnewydd, tref Glynebwy ac Abertyleri.

Rydym wedi comisiynu Network Rail i gynnal astudiaeth o ymarferoldeb a chostau codi'r cyfyngiadau yn Gaer Junction unwaith y daw Prosiect Signalu Ardal Casnewydd i ben.

Nid ydym wedi newid ein meddyliau ynghylch eisiau gweld gwasanaeth rhwng Glynebwy a Chasnewydd. Byddwn yn adolygu'r gwasanaeth gydag Arriva Trains Cymru a Network Rail ac mewn cydweithrediad â SEWTA, i benderfynu sut orau i ddarparu gwasanaeth i Gasnewydd. Bydd y broses yn cynnwys ymgynghori â defnyddwyr y rheilffyrdd ar y gwasanaeth a'r amserlenni. Fel gyda phob cynnig i estyn gwasanaeth, bydd yn rhaid ystyried a fedrwn ei fforddio ac a gawn werth ein harian

Er mwyn rhedeg gwasanaeth rheolaidd rhwng Glynebwy a Chasnewydd, bydd angen i'r pedwar platffordd allu gweithio'r ddwy ffordd. Prosiect Ailsignalu Casnewydd fydd yn gwneud hynny'n bosibl, a bydd hefyd yn hwyluso'r gwasanaethau trwy Gasnewydd; ac ailsefydlu'r groesfan yn y Graig. Bydd angen cwblhau'r holl waith cyn y gellir darparu

gwasanaeth rheolaidd, hynny oherwydd cyfyngiadau'r capasiti gweithredol yn/trwy Gasnewydd (nid oherwydd patrwm llwybrau'r trac yn unig).

Nid oes digon o isadeiledd ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth cludo teithwyr rheolaidd i Gasnewydd. I'r sefyllfa newid, bydd angen croesfan newydd dros y fan lle mae Lein Glyn Ebwy yn cwrdd â Phrif Lein De Cymru, newid y signalu yn ardal Park Junction, cwblhau platfform 4 newydd hir newydd yng Ngorsaf Casnewydd ac ailsignalu'r brif lein. Rhagwelir na ddaw'r gwaith i ben cyn 2009/dechrau 2010, pan fydd Network Rail yn cwblhau cam cyntaf y gwaith ailsignalu ar y Brif Lein yng Nghasnewydd.

Mae'r rheolau ar gyfer symud cerbydau gwag (a threnau cludo nwyddau) yn wahanol ac yn llai llym na'r rheolau ar gyfer trenau cludo teithwyr. Nid oes digon o drac (yn Gaer Junction) i redeg gwasanaeth rheolaidd rhwng Casnewydd a Glynebwy. Mae trenau di-deithwyr hyfforddi gyrwyr wedi bod yn mynd i Lawr (gorllewin), yn ôl o orsaf Casnewydd ac i Fyny (i'r dwyrain) am yr hanner milltir i'r Gaer pan geir bwlch bach yn yr amserlen trenau. Nid oes bwlch rheolaidd a phe bai gwasanaeth yn cael ei redeg, byddai'n cael effaith fawr ar wasanaethau eraill.

Dyheadau at y dyfodol yw estyn y lein i ganol Glynebwy ac i Abertyleri a bydd yn rhaid i'r carfanau dan sylw gyflwyno cynllun busnes i'w gwireddu.